Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Dinbych Uchaf
# Capel Seion
# Ffordd Henllan
# Dinbych
# LL16 3PE

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Dinbych Uchaf sy'n cwrdd mewn ystafell yng Nghanolfan Capel Seion sydd ar gyrion tref Dinbych, yn awdurdod lleol Dinbych. Mae'r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy i dair a hanner oed rhwng 8.45 a 11.15 y bore a rhwng 12.15 a 2.45 y prynhawn bob dydd o'r wythnos yn ystod y flwyddyn addysgol. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 20 o blant fesul sesiwn. Mae 30 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gydag 13 yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol.

Saesneg yw prif iaith y cartref y rhan fwyaf o blant. Mae gan y lleiafrif o blant anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pedwar aelod o staff gan gynnwys yr arweinydd. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Mai 2013.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Mehefin 2018 a chan Estyn ym mis Rhagfyr 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn
- y plant yn hapus iawn, yn ymgartrefu'n gyflym ac yn mynd yn syth a diofyn at y gweithgareddau parhaus yn frwdfrydig
- llawer o blant yn gwrando ar stori ac yn ymuno yn y symudiadau yn ystyrlon wrth ganu
- medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda
- llawer o blant yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol
- llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn parchu ei gilydd
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn gadarn
- ymarferwyr yn adnabod pob plentyn yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth asesu yn llwyddiannus i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu
- y ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau hapusrwydd a diogelwch pob plentyn ynghyd â chynnig darpariaeth o safon uchel mewn awyrgylch gartrefol ac hapus
- ffocws clir ar ddatblygu dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ieithyddol y plant
- yr arweinwyr yn meithrin ysbryd o gydweithio agos ac effeithiol
- ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn sicrhau bod y plant yn gwneud y cynnydd gorau
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn galluogi staff i adnabod cryfderau lleoliad a meysydd ar gyfer gwelliant yn llwyddiannus
- blaenoriaethau ar gyfer meysydd i'w gwella yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun datblygu yn llwyddiannus
- gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol

## Argymhellion

A1 Annog yr holl blant sy’n deall yr iaith i ymateb yn llafar yn fwy rheolaidd yn y Gymraeg

A2 Cryfhau’r gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant i sicrhau mwy o ffocws ar ddeilliannau plant

A3 Gwella cynllunio ar gyfer TGCh i sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau’r plant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn cyrraedd y lleoliad gyda medrau llythrennedd a rhifedd sy'n is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae bron pob plentyn yn dechrau yn y lleoliad heb fedru siarad Cymraeg. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llefaredd ac yn datblygu dealltwriaeth o'r iaith yn fuan. Mae bron pob un yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn ymateb i gyfarwyddiadau dyddiol yn gywir gan ddangos lefel gadarn o ddealltwriaeth. Maent yn adeiladu ar y ddealltwriaeth ac yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o'r iaith wrth ymateb yn syml i gwestiynau gan yr ymarferwyr yn ystod amser cofrestru. Mae llawer o blant yn ymuno yn symudiadau'r caneuon yn gyson a phwrpasol. Ar y cyfan, mae'r mwyafrif yn siarad yn glir, er enghraifft wrth ymateb i gwestiwn ar stori'r Lindysyn Llwglyd. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o blant yn hyderus wrth drafod yn y Gymraeg, er eu bod yn deall ac yn ymateb yn syml i sylwadau ymarferwyr. Mae lleiafrif yn dewis mynd i ddarllen o'u gwirfodd, gyda dealltwriaeth gadarn o sut i drin llyfrau'n gywir. Mae llawer o blant yn defnyddio offer gwneud marciau yn annibynnol a chyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth ddilyn patrwm ar bapur neu greu marciau o liw a lled wahanol ar y llechi cyfrifiadurol.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd da. Maent yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir, er enghraifft wrth gyfrif smotiau ar fuwch goch gota neu sawl pêl o liwiau gwahanol aeth i fol y lindysyn llwglyd. Mae lleiafrif o blant yn cyfrif â chywirdeb i ddeg a thu hwnt heb anogaeth. Mae llawer yn didoli a grwpio gwrthrychau yn ôl lliw ac yn enwi'r lliwiau yn llwyddiannus. Gall llawer enwi siapiau dau ddimensiwn syml yn gywir a defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol wrth gymharu maint peli toes. Mae llawer yn cymharu maint gwrthrychau â'i gilydd yn hyderus ac yn gallu nodi ar lafar os ydynt yn 'llai' neu'n 'fwy', yn 'fach', neu'n 'fawr'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod o offer TGCh yn hyderus. Maent yn gwneud hyn trwy ddefnyddio cyfrifiadur, llechi cyfrifiadurol, a dyfeisiau electronig mewn gweithgareddau ffocws a pharhaus yn hyderus. Mae llawer yn datblygu medrau echddygol manwl yn fedrus wrth ddefnyddio llygoden yn ofalus i ddewis, llusgo a gosod traciau ar gyfer trên ar sgrin y cyfrifiadur. O ganlyniad i'r profiadau hyn, mae eu defnydd o raglenni addysgol, apiau a chaledwedd yn datblygu eu medrau meddwl, creadigol a chyfleoedd i ddatrys problemau yn fwriadus.

Mae mwyafrif o blant yn datblygu medrau corfforol da drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau diddorol a mentrus. Mae'r mwyafrif yn defnyddio eu medrau corfforol yn gyson, er enghraifft wrth ddefnyddio blociau i adeiladu tŵr neu wrth bedalu ar feic tair olwyn. Mae llawer yn datblygu medrau taflu yn gywir trwy anelu a thaflu peli o wahanol liw i geg y lindysyn llwglyd ac yna eu cyfri. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau creadigol effeithiol, er enghraifft wrth greu darn o gerddoriaeth yn yr adran gerdd.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn ymgartrefu'n gyflym. Maent yn mynd yn syth a heb anogaeth at y gweithgareddau yn frwdfrydig. Mae gan y rhan fwyaf agwedd gadarnhaol at ddysgu. Maent wrth eu bodd yn cymryd rhan yn yr ystod o weithgareddau ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau rhesymol, er enghraifft wrth ddirwyn llinyn trwy gyfres o riliau cotwm o wahanol liwiau i greu lindysyn. Mae llawer yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol, er enghraifft wrth ddewis pa weithgaredd i'w wneud neu wrth wisgo ffedogau peintio. Gall llawer adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gofio bod y Lindysyn Llwglyd wedi troi'n bili pala tlws.

Mae llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda. Maent yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais. Maent yn dysgu cymryd eu tro a rhannu yn ystod gweithgareddau ac yn ystod amser byrbryd yn dda. Mae llawer yn cymryd cyfrifoldeb drwy helpu tacluso a dangos parch a gofal at offer yn bwrpasol.

Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae y tu allan neu wneud gwaith creadigol, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, heb lawer o anogaeth gan yr ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hylendid a'i bwysigrwydd i gynnal bywydau iach a chyfrifol yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cydgynllunio'n ofalus ac yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer y plant. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu yn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'u hadnabyddiaeth gadarn o'r plant i dargedu anghenion a diddordebau'r plant yn effeithiol.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r modd y maent yn cynllunio i ddatblygu medrau ieithyddol y plant yn systematig trwy eu trochi yn yr iaith Gymraeg. O ganlyniad, mae plant sydd yn cyrraedd y lleoliad heb y gallu i siarad Cymraeg yn gwneud cynnydd da, yn arbennig o ran eu dealltwriaeth o'r iaith. Mae'r cynlluniau hefyd yn nodi'n glir y cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant o fewn yr ystod o themâu diddorol. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu'r medrau hyn ar draws yr holl feysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh wedi datblygu i'r un graddau â llythrennedd a rhifedd gan nad os dilyniant a pharhad yn y cynllunio ar gyfer profiadau'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i blant fynegi eu teimladau eu hunain yn ystod amseroedd cylch a'r gwaith grwpiau. Maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau cerddorol a chreadigol yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gynnig profiadau hwyliog i'r plant chwarae a tharo gwahanol offerynnau. Anogir y plant i chwarae rôl yn y gegin a'r ardal gwisgo i fyny yn gyson. Datblygir medrau ymchwiliol yn effeithiol yn yr ardal ddarganfod, drwy roi cyfleoedd i ddefnyddio chwyddwydrau i arsylwi ar y pedwar lindysyn sy'n tyfu yno.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen yn flynyddol, a mynychu gŵyl y Mudiad Meithrin i fwynhau'r bwrlwm Cymreig yna a phrofi mwynhad trwy weithgareddau Cymraeg.

Mae’r lleoliad yn defnyddio ymwelwyr o’r gymuned fel y nyrs a’r swyddog croesi ffordd lleol i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant yn dda. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddefnyddio’r gymuned fel rhan o’r cwricwlwm, er enghraifft wrth drefnu ymweliadau i’r siop leol i brynu ffrwythau i’r Lindysyn Llwglyd fel rhan o’r gwaith thema.

**Addysgu: Da**

Un o gryfderau’r lleoliad yw’r modd y mae’r ymarferwyr yn cydweithio fel tîm a’r ymddiriedaeth a’r parch amlwg sydd rhyngddynt. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y parch a’r gofal sydd gan yr ymarferwyr tuag at y plant a’u hanghenion. Maent yn defnyddio canmoliaeth yn gyson a phwrpasol ac yn defnyddio dulliau cadarnhaol i reoli ymddygiad yn llwyddiannus.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ynghyd â gofynion y cyfnod sylfaen. Maent yn ennyn diddordeb y plant yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt ddysgu yn yr ardal allanol gydol y flwyddyn fel ymestyniad naturiol o’r ardal tu fewn. Maent yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy’n cael eu llywio gan yr ymarferwyr a gadael i’r plant wneud eu dewisiadau eu hunain. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo annibyniaeth yn gyson. Gwnânt hyn drwy hybu plant i olchi dwylo, gwisgo ffedogau ac estyn eu plât a chwpan yn annibynnol adeg byrbryd. Mae’r ymarferwyr yn creu adnoddau pwrpasol ac ysgogol eu hunain er mwyn ennyn diddordeb a hybu dealltwriaeth y plant yn dda. Enghraifft effeithiol o hyn yw’r tiwb creision a addurnwyd fel lindysyn llwglyd i greu gêm i helpu’r plant adnabod ffrwythau a threfn y stori.

Cryfder arall yn yr addysgu yw’r modd y mae’r ymarferwyr yn modelu’r iaith Gymraeg yn llwyddiannus a chyson. Maent yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i drochi’r plant yn y Gymraeg drwy gyfathrebu â nhw yn gyson fel grŵp ac un i un. Mae hyn yn gymorth i ddatblygu iaith y plant trwy gyflwyno geirfa newydd ac ailadrodd geiriau cyfarwydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y plant pan fydd y Gymraeg yn newydd iddynt. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i’r plant ymateb i gwestiynau yn syml yn ystod gweithgareddau ffocws. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud hyn yr un mor llwyddiannus yn ystod sesiynau torfol. O ganlyniad, nid yw’r holl blant yn ymateb yn llafar yn ddigon rheolaidd yn y Gymraeg.

Mae’r trefniadau ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd plant yn drwyadl a chyson. Mae’r asesiadau cychwynnol yn fuddiol ac yn galluogi’r ymarferwyr i nodi a mesur cynnydd pob plentyn tra yn y lleoliad. Maent yn rhannu’r wybodaeth gyda’r rhieni yn llwyddiannus fel eu bod yn gallu helpu gyda datblygiad eu plentyn. Mae system ymarferol yn ei lle sy’n galluogi pob ymarferwr i nodi unrhyw gam pwysig a wneir gan y plant a’i osod ar y wal asesu o dan lun pob plentyn. Mae hyn yn arwain at drafodaeth werthfawr rhyngddynt i adeiladu ar eu dealltwriaeth o gynnydd pob plentyn. Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn fuddiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol a chynorthwyo’r cynllunio.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant trwy sgwrs anffurfiol ar ddiwedd sesiwn ac mewn cyfarfod ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd cyfnod y plant yn y lleoliad, mae’r ymarferwyr yn trosglwyddo gwybodaeth i’r ysgol gynradd. Mae hyn yn cynorthwyo’r plant wrth drosglwyddo’n esmwyth i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo lles ac iechyd plant yn llwyddiannus. Drwy greu awyrgylch ddiogel a chroesawgar, mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn ymroi i'r gweithgareddau heb unrhyw gymhelliant. Anogir y plant i gymryd eu tro ac i fod yn ystyriol o eraill wrth iddynt olchi eu dwylo, aros i gael dewis byrbryd a thywallt y ddiod. Maent yn meithrin y syniad o gyfrifoldeb ac annibyniaeth yn gadarn wrth roi cyfle i'r plant estyn eu llestri bwyd eu hunain a chlirio'u llestri ar ddiwedd amser byrbryd.

Mae'r lleoliad yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn fwriadus. Mae cyfleoedd priodol i hyrwyddo'r gwerthoedd hyn, trwy annog y plant i drafod teimladau yn ystod 'amser cylch' a thrwy weddi ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r ymarferwyr yn datblygu gwerthoedd, fel gonestrwydd, tegwch a pharch, yn llwyddiannus trwy weithgareddau ac arferion dyddiol. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un yn ystyried a pharchu teimladau ei gilydd yn aeddfed. Mae cyfleoedd buddiol i ddatblygu syndod a rhyfeddod y plant am y byd o'u cwmpas wrth iddynt arsylwi ar lindys yn tyfu, dyfrhau blodau, a sylwi ar newidiadau i hylif wrth ychwanegu lliw.

Mae'r lleoliad yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgaredd ymarfer corff ar offer mawr y tu allan a gemau anturus y tu fewn yn y neuadd. Mae'r lleoliad yn atgyfnerthu arferion byw'n iach yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn cynllun i addysgu'r plant am bwysigrwydd glanhau dannedd a darparu ffrwyth, dŵr a llaeth yn ystod amser byrbryd. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyson i'r plant ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr ar ddiwedd y sesiwn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn a phwrpasol. Mae'r arweinydd yn trefnu cymorth ac yn addasu'r ddarpariaeth i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn briodol yn ôl yr angen. Mae'n cydweithio'n fuddiol gyda rhieni ac asiantaethau arbenigol i ddarparu cynlluniau addysg unigol priodol ac yn adolygu eu cynnydd yn rheolaidd. Mae wedi sicrhau bod pob ymarferwr wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ar arwyddo er mwyn cynnwys yr ychydig iawn o blant sydd angen hyn yn y gweithgareddau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob un plentyn yn cael cyfleoedd cyfartal i ddatblygu fel unigolyn. Mae ymarferwyr yn rhoi pwyslais dilys ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am wahanol ddiwylliannau a gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a sicrhau bod doliau a dillad i wisgo yn adlewyrchu amrywiaeth o gefndiroedd ethnig.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau y tu fewn a thu allan i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant yn dda. Defnyddir yr adnoddau hyn yn effeithiol i gyfoethogi'r dysgu. Enghraifft o hyn yw'r adnoddau ysgogol mae'r ymarferwyr wedi

eu creu i hybu dealltwriaeth o rif. Mae'r adnoddau yn gymharol newydd, mewn cyflwr da ac yn cael eu gosod ar lefel y mae'r plant yn gallu eu cyrraedd a'u rhoi yn ôl. Mae hyn yn datblygu annibyniaeth y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr wedi dechrau arddangos gwaith y plant mewn arddangosfeydd lliwgar yn ddiweddar er mwyn dathlu eu cyfraniad a hybu balchder y plant ynddo. Maent hefyd yn arddangos rhifau a phrint er mwyn atgyfnerthu medrau darllen a rhifedd cynnar y plant yn addas.

Mae'r amgylchedd dysgu yn lân, mae'r adeilad mewn cyflwr da ac wedi'i gynnal a'i gadw'n fwriadus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Trwy sicrhau cydweithio effeithiol fel tîm, mae'r arweinydd yn gweithredu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar sicrhau hapusrwydd a diogelwch pob plentyn ynghyd â chynnig darpariaeth o safon uchel mewn awyrgylch gartrefol, gyda'r bwriad clir o roi cyfle i blant gyrraedd eu potensial. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r rhieni, yr ymarferwyr ac aelodau'r pwyllgor rheoli. Mae'r weledigaeth yn cyfrannu'n helaeth at y cynnydd da y mae plant yn ei wneud o fan cychwyn isel. Mae'r ffocws clir ar ddatblygu dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ieithyddol y plant hynny y mae'r Gymraeg yn ddieithr iddynt.

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel ac mae gweithdrefnau clir yn eu lle i rannu gwybodaeth am weithgareddau dyddiol a chynnydd plant ymhlith yr ymarferwyr. Mae disgrifiadau swydd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff yn glir. O ganlyniad, mae pawb yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'r disgwyliadau uchel ac yn gweithredu arnynt. Mae'r lleoliad yn rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ffocysu'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles.

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod rheoli perfformiad y staff yn gadarn a bod gan bob ymarferwr fynediad buddiol i hyfforddiant. Mae hyn yn cysylltu'n dda â'u hanghenion proffesiynol ond nid yw'r cysylltiad â blaenoriaethau gwella cyfredol y lleoliad yr un mor gadarn.

Mae'r pwyllgor yn derbyn gwybodaeth gyson gan yr arweinydd ac, o ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn y lleoliad yn gadarn iawn. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at reolaeth y lleoliad gan sicrhau rhediad hwylus, cefnogaeth a thrafod anghenion y lleoliad mewn cyfarfodydd. Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod polisïau statudol yn cael eu gweithredu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r lleoliad yn datblygu'n bwrpasol. Mae'r arweinwyr yn edrych ar ac yn trafod safonau'r plant a'r ddarpariaeth yn gyson gyda'r ymarferwyr eraill. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd cadarn o ymateb ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, ynghyd â chyngor swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r

arweinydd yn ymateb yn gadarnhaol i'r ymatebion a'r cyngor er budd y plant. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn adnabod y cryfderau yn gadarn ac yn dechrau dod i ddeall meysydd i'w gwella yn fwriadus.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae'r cynllun gwella yn nodi nifer o dargedau clir, y gweithgareddau, pwy sy'n gyfrifol, cost ac effaith. Mae prosesau gwella ansawdd cadarn wedi arwain at wella dealltwriaeth plant o'r iaith Gymraeg drwy gyflwyno cynllun strwythuredig i ddatblygu medrau Cymraeg y plant. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn canolbwyntio'n ormodol ar ansawdd y ddarpariaeth yn hytrach na deilliannau'r plant. Nid yw hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth drwyadl yr ymarferwyr o ddeilliannau a chynnydd pob plentyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth, yr arweinyddiaeth a deilliannau'r plant.

Mae perthynas fuddiol iawn rhwng yr ymarferwyr a rhieni'r plant ac mae hyn yn un o gryfderau'r lleoliad. Mae'r arweinydd yn ymweld â phob cartref cyn i blentyn gychwyn yn y lleoliad ac mae hyn yn gymorth i ffurfio cwlwm agos a magu ymddiriedaeth rhwng y rhieni a'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn adeiladu ar y cyswllt a'r ymddiriedaeth hyn yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cadw cyswllt agos â'r cartref gan rannu camau datblygiadol y plentyn â'r rhieni yn gyson ynghyd â gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol, Dechrau'n Deg a Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn elwa o dderbyn cyngor ar ddogfennaeth a pholisïau ac yn sicrhau hyfforddiant a chyngor rheolaethol yn effeithiol. Mae'r berthynas â Mudiad Meithrin yn arbennig o lwyddiannus ac mae'r lleoliad yn elwa'n fawr o fod yn rhan o gynllun i ddatblygu medrau Cymraeg y plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau'r plant. Mae'r lleoliad wedi rhannu'r arfer hon â nifer o leoliadau eraill sy'n mabwysiadu'r un cynllun. Partneriaeth effeithiol arall yw'r un sy'n bodoli gyda'r therapydd iaith sy'n ymweld â'r lleoliad yn gyson yn ôl yr angen. Drwy'r cydweithio agos hwn, mae'r arweinydd yn adnabod anghenion dysgu plant yn gynnar ac yn barod i gyfeirio am gymorth.

Mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli â'r ysgolion lleol. Mae systemau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant o un sefydliad i'r llall. Mae hyn yn cefnogi'r trefniadau pontio yn dda ac mae'r trefniadau'n gymorth i'r plant wrth iddynt drosglwyddo i addysg gynradd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn cefnogi'r dysgu'n fwriadus gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd. Enghraifft effeithiol o hyn yw bod yr is-arweinydd yn gyfrifol am ysgolion iach ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hybu bwyta'n iach o fewn y lleoliad a pharodrwydd y plant i fwyta amrywiaeth o ffrwythau.

Trwy'r system rheoli perfformiad, mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn nodi anghenion datblygu'r staff yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r lleoliad yn elwa o hyfforddiant gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant, er enghraifft trwy ddarparu dull trochi iaith effeithiol a'u cefnogi i ddethol adnoddau yn ofalus ar gyfer yr ardaloedd.

Mae'r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn sicrhau cyflenwad da o gyfarpar dysgu sy'n ymateb i ofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol.

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o sefyllfa ariannol y lleoliad. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid i sicrhau ystod o adnoddau ysgogol a phwrpasol.

Yn sgil y ddarpariaeth effeithiol, y staff diwyd, y pwyllgor rheoli cefnogol a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |